OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 192 (Cy.27)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Chwefror 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Chwefror 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 16 a 27 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio**

**2.** Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009(**2**) wedi'u diwygio drwy ychwanegu ar ôl paragraff 3 o Ran 1 o'r Atodlen y canlynol —

> "**4.** Y cod ymddygiad wrth deithio a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o'r Mesur.".

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

2 Chwefror 2010

(**1**) 2008 mccc 2. I gael ystyr "rhagnodi" a "rheoliadau" gweler adran 24(1).
(**2**) O.S. 2009/569 (Cy. 53).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 sy'n gosod yr wybodaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chyhoeddi am drefniadau teithio a wneir o dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Mae'r diwygiad yn ychwanegu'r cod ymddygiad wrth deithio, a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 12 o'r Mesur, at yr wybodaeth sydd i'w chyhoeddi.